# Asesiad o’r Effaith ar Iechyd (AEI) a'r Rheoliadau AEI

Liz Green, Cheryl Williams
Uned Gymorth Asesu’r Effaith ar Iechyd Cymru (UGAEIC)

Hannah Chaundy, Llywodraeth Cymru

2 Medi 2026

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Llywodraeth Cymru Welsh Government


GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales
Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru
Wales Health Impact Assessment Support Unit

# Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru

- Crëwyd yn 2004; arweinwyr byd o ran AEI
- Wedi'i lleoli yng Nghanolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar 'Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant', Cyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Mae'n darparu gwasanaeth Cymru gyfan
- Mae'n darparu arweiniad, hyfforddiant, adnoddau a gwybodaeth mewn perthynas ag ymarfer AEI
- https://icccgsib.co.uk/whiasu/

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Click here to play



## Beth yw Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI)?

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Y Rheoliadau HIA 2025

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Beth yw Asesiad o’r Effaith ar Iechyd?

## Dyma’r diffiniad yn y Rheoliadau:

Mae Asesiad o’r Effaith ar Iechyd yn asesiad o effaith debygol, yn y tymor byr a’r tymor hir, gam neu benderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl holl bobl Cymru neu rai ohonynt.

Mae HIA yn offeryn ymarferol, hyblyg, seiliedig ar dystiolaeth, sy'n helpu sefydliadau i asesu sut y gallai eu penderfyniadau effeithio ar iechyd pobl, yn enwedig grwpiau sy'n agored i niwed neu dan anfantais.


# Rheoliadau Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025

- Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn galluogi rheoliadau i orfodi Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd (HIA) ar gyfer cyrff cyhoeddus penodedig, sydd bellach wedi'u deddfu.
- Mae'r Rheoliadau’n sicrhau ystyriaeth gyson a systematig o effeithiau iechyd wrth wneud penderfyniadau.
- Maent hefyd yn helpu sefydliadau i ddangos cydymffurfiaeth â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn enwedig nodau 'Cymru Iachach' a 'Gymru sy’n Fwy Cyfartal'.


LLESIANT CENEDLAETHAU’R DYFODOL
WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS



# Penderfynyddion Ehangach Iechyd




Penderfynyddion Ehangach Iechyd (Dahlgren and Whitehead, 2021)




Public Health Scotland, 2026

*"Nid gwasanaethau meddygol yw'r prif ffactor sy'n pennu marwolaethau nag afiachedd; mae'r rhain yn dibynnu fwyaf ar safonau maeth, tai, amgylchedd gwaith ac addysg, a phresenoldeb neu absenoldeb rhyfel."* Julian Tudor Hart

# Y cyrff cyhoeddus sy’n dod o dan y Rheoliadau

Mae'r cyrff cyhoeddus sy’n dod o dan y Rheoliadau'n berthnasol yn adlewyrchu'r rhai a restrir yn adran 6(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef cyfanswm o **56 o sefydliadau**

- Gweinidogion Cymru;
- Awdurdodau lleol;
- Cyd-bwyllgorau corfforedig;
- Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd y GIG;
- Awdurdodau Iechyd Arbennig;
  Awdurdodau'r Parc Cenedlaethol;
- Awdurdodau Tân ac Achub Cymru;
- Cymwysterau Cymru

# Pryd y bydd angen i gyrff cyhoeddus gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) statudol

Rhaid i gorff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r rheoliadau gynnal HIA pan fydd yn **gwneud penderfyniad o natur strategol ynghylch sut y mae i arfer ei swyddogaethau**.

Bwriad y Rheoliadau yw creu dull cyson yn hytrach na gorchymyn yr holl amgylchiadau lle dylid defnyddio HIA.

Yn y pen draw, y cyrff cyhoeddus fydd i benderfynu a yw'r penderfyniad yn gymwys fel un o natur strategol yn unol â'r Rheoliadau. Fodd bynnag, mae'r amgylchiadau'n unol â dyletswyddau eraill sy'n bodoli eisoes megis y Ddyletswydd Gymdeithasol-Economaidd.

Bydd **defnyddio HIA ar sail wirfoddol** yn parhau i gael ei annog.

# Sut y bydd gofyn i gyrff cyhoeddus gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA)?

**Gofynion: O dan y Rheoliadau, rhaid i gyrff cyhoeddus:**

- Nodi'r penderfyniad y mae'r HIA yn ymwneud ag ef.
- Nodi unrhyw grwpiau o'r boblogaeth y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol y gall y penderfyniad effeithio ar eu hiechyd corfforol neu eu hiechyd meddwl.
- Nodi ac asesu unrhyw effeithiau a fwriedir gan y penderfyniad, ac unrhyw effeithiau nas bwriedir gan y penderfyniad y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol eu bod yn debygol, ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl grŵp o'r boblogaeth a nodir, gan roi sylw i'r penderfynyddion iechyd ehangach ac unrhyw ffactorau annhegwch iechyd.
- Nodi ac asesu, mewn perthynas ag unrhyw effeithiau a nodwyd, unrhyw fesurau y mae corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol y gallant atal, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gynyddu unrhyw effeithiau cadarnhaol.
- Nodi ac asesu unrhyw beth arall y mae'r corff cyhoeddus yn ei ystyried yn berthnasol i gynnal y HIA.
- Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ei gynnal, cyhoeddi'r HIA mewn unrhyw fodd y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried ei fod yn briodol.

[Click here to play]






GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Y broses Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA)

# Mapiau proses HIA ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru



# Cwmpasu – mewnbynnau i’r asesiad – (Cam 2)*

- Bwriad polisi y tu ôl i benderfyniad strategol
- Cyd-destun polisi cysylltiedig, e.e. Y Ddeddf Llesiant, Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, Dyletswydd
- Tystiolaeth gan randdeiliaid perthnasol a grwpiau perthnasol o'r boblogaeth
- Data, tystiolaeth ac ymchwil
- Canllawiau, templedi ac offer ICC
- Arbenigedd proffesiynol
- Adnoddau ac amserlenni sydd ar gael i gyrff cyhoeddus

**Yn unol â phrosesau'r sefydliad**

**Asesu (Cam 3)***

Nodi’r penderfyniad y mae’r HIA yn ymwneud ag ef.

Nodi unrhyw grwpiau o’r boblogaeth y mae’r corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol y gall y penderfyniad effeithio ar eu hiechyd corfforol neu eu hiechyd meddwl.

Nodi ac asesu unrhyw effeithiau a fwriedir gan y penderfyniad, ac unrhyw effeithiau nas bwriedir gan y penderfyniad y mae’r corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol eu bod yn debygol, ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl grŵp o’r boblogaeth a nodir, gan roi sylw i’r penderfynyddion iechyd ehangach ac unrhyw ffactorau annhegwch iechyd.

Nodi ac asesu, mewn perthynas ag unrhyw effeithiau a nodwyd, unrhyw fesurau y mae corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol y gallant atal, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gynyddu unrhyw effeithiau cadarnhaol.

Nodi ac asesu unrhyw beth arall y mae’r corff cyhoeddus yn ei ystyried yn berthnasol i gynnal yr HIA.

Canfyddiadau o'r asesiad, y mesurau a gymerwyd ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

***Yn cyd-fynd â phroses 5 cam WHO ar gyfer HIAs**

Gofyniad y Rheoliadau HIA

Gofynion nad ydynt yn orfodol

Gofyniad Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

# Pum cam HIA:

**Cam 1:** Sgrinio

**Cam 2:** Cwmpasu

**Cam 3:** Gwerthuso'r Dystiolaeth (Asesu)

**Cam 4:** Adrodd ac Argymhellion*

**Cam 5:** Adolygu a myfyrio gan gynnwys monitro a gwerthuso

*Mae Sicrhau Ansawdd yn thema graidd unrhyw HIA a dylid ei ystyried drwy gydol y broses – o'r cam cwmpasu hyd at y diwedd. Fel arfer caiff ei gynnwys yn ystod y cam adrodd, neu ar ôl cyhoeddi. Mae'n galluogi cynnal adolygiad o'r HIA er mwyn sicrhau hyder yng nghynnwys, canfyddiadau a chadernid y broses HIA. Mae hwn yn arfer da dewisol a argymhellir.

# Cam 1
## Sgrinio


- Defnyddio rhestr wirio sgrinio Uned Gymorth Asesu’r Effaith ar Iechyd Cymru (UGAEIC)
- Mae'r cam sgrinio yn cynnwys penderfynu a ddylid cynnal Asesiad o’r Effaith ar Iechyd (AEI).
- Gwneir hyn fel arfer drwy gynnal gweithdy sgrinio, pan fo grŵp bach o randdeiliaid allweddol yn dod at ei gilydd i drafod a phenderfynu a oes angen AEI.

# Cam 2
## Cwmpasu

- Defnyddio rhestr wirio cwmpasu UGAEIC
- Mae’r cam Cwmpasu yn pennu’r ffocws, y dulliau a’r cynllun gwaith ar gyfer yr AEI.
- Yn pennu trefniadau rheoli prosiect, llywodraethu, y broses, amcanion, ffocws a graddfa'r asesiad i'w gynnal.
- Gellir gwneud hyn drwy sefydlu grŵp llywio a nodi pwy fydd yn ymgymryd â pha rolau o fewn yr AEI.

# Cam 3
## Gwerthuso Tystiolaeth (Asesiad)

- Mae hyn yn cynnwys casglu a dadansoddi'r dystiolaeth i nodi'r effeithiau posibl neu wirioneddol ar iechyd.
- Yn gymesur ac yn hyblyg yn dibynnu ar yr AEI
- Yn cynnwys triongli data – data poblogaeth leol, adolygu tystiolaeth, gwybodaeth rhanddeiliaid
- Mae rhagor o wybodaeth am y cam hwn ar gael yn Asesu'r Effaith ar Iechyd: Canllaw Ymarferol gan UGAEIC



## Cam 4

## Adrodd ac Argymhellion

- Mae'r cam hwn yn cynnwys datblygu cyfres o argymhellion neu gamau gweithredu awgrymedig yn seiliedig ar yr effeithiau a nodwyd.
- Dylai'r rhain wneud y mwyaf o unrhyw fuddion a chyfleoedd iechyd a llesiant posibl a lliniaru canlyniadau negyddol neu anfwriadol posibl.
- Mae angen i argymhellion fod yn: Glir ac yn gryno; yn realistig; yn gyraeddadwy; yn ddichonadwy o ran nifer; yn ddiduedd, adlewyrchu'r holl dystiolaeth a barn cynrychiolwyr; wedi'u gytuno trwy gonsensws

## Cam 5

## Adolygu a Myfyrio yn cynnwys Monitro a Gwerthuso

- Mae’r cam hwn yn cynnwys gwerthuso'r broses neu unrhyw ganlyniadau’r AEI.
- Mae’n cynnwys y tîm AEI yn myfyrio ar yr AEI a'u dysgu yn ogystal ag asesu defnyddioldeb yr AEI i'r gynulleidfa darged ac a ddylanwadodd ar y broses o wneud penderfyniadau a'r camau a gymerwyd ai peidio.

# Mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI) yn hyblyg ac yn gymesur


Gellir cynnal AEI ar raddfa fach (Cyflym) – Cynlluniau Datblygu Lleol

Neu ar raddfa llawer mwy (Cynhwysfawr) – Newid Hinsawdd yng Nghymru

Neu rywle yn y canol!

O dan y rheoliadau, dylid cynnal AEI:

- Pan fydd rhaglen, cynllun neu bolisi yn yr arfaeth
- Ar yr un pryd â gweithredu'r rhaglen, cynllun neu bolisi
- Yn ôl-weithredol



# Pam gwneud Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI)? Manteision ac Effeithiau

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Manteision:

- Yn seiliedig ar dystiolaeth, yn systematig, yn ymarferol ac yn hyblyg.
- Yn cyfrannu at nodi a lleihau **canlyniadau anfwriadol** a gwneud y mwyaf o **effeithiau/cyfleoedd cadarnhaol.**
- Yn cyfrannu at **ddeall** a **mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd**.
- Yn cydnabod **pwysigrwydd cyfranogiad**, a chynnwys yr unigolion hynny a allai gael/a fydd yn cael eu heffeithio'n benodol gan bolisi/cynllun/prosiect.

# Pa effaith mae Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd wedi'i chael?

## Cynhwysfawr

[Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI) o Newid Hinsawdd yng Nghymru]

- **Cynllun Addasu Llywodraeth Cymru**
- Asesiad Risg Newid Hinsawdd 4 yn y DU
- **Blaenoriaeth strategol** Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru – argymell asesiad ar lefel leol
- **Wedi'i ailadrodd gan wledydd eraill**



# Pa effaith mae Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd wedi'i chael?

## Cyflym

Raglen Sgrinio Canser yr Ysgyfaint ar gyfer Cymru

Beth: Rhaglen sgrinio'r ysgyfaint Cymru gyfan arfaethedig ar gyfer grwpiau risg uchel a nodwyd.


Ble: Cymru gyfan / peilot yng Nghwm Taf Morgannwg.

Pam:

- Nodi'r effeithiau posibl ar iechyd a llesiant.
- Nodi effeithiau anfwriadol.
- Ystyried goblygiadau anghydraddoldeb.

Sut:

- AEIau cyfranogol cyflym, rhagolygol.
- Dilyn canllawiau AEIau UGAEIC.
- Gweithdy cyfranogol ag 20 o gyfranogwyr.




# Effaith y HIA


- Gwaith ymgysylltu gwybodus: pum grŵp ffocws gan gynnwys pobl ag anabledd dysgu, cyn-filwyr, a grwpiau cymunedol, arolwg gyda 2,476 o ymatebion.
- Asesiad o’r Effaith ar Iechyd wedi'i gynnwys mewn adroddiad interim i Lywodraeth Cymru.
- Wedi'i fwydo i'r cyhoeddiad am sgrinio’r ysgyfaint yng Nghymru, Mehefin 2025.
- Dylunio rhaglenni â chymorth: pwynt cyfeirio ar gyfer gwneud penderfyniadau; y sail ar gyfer gwaith arall e.e. Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb

# Mae Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru (UGAEIC) yma i helpu!

Adnoddau AEI:

- Canllaw AEI
- Dogfen Cwestiynau Cyffredin
- Adnodd Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant
- Taflen gofnodi sgrinio
- Templed cwmpasu
- Templedi Gweithdy

Hafan - Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru


Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA): Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant

Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA): Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant

*Dylid defnyddio'r adnodd hwn yn ystod camau Sgrinio ac Arfarnu Tystiolaeth HIA er mwyn nodi'r penderfynyddion ehangach, a'r grwpiau poblogaeth y gallai polisi/prosiect/cynnig effeithio arnynt. Dim ond canllaw yw'r adnodd hwn ac nid yw'n gynhwysfawr. Er gwybodaeth hefyd, cydnabyddir y gall y derminoleg newid dros amser.*

Grwpiau Poblogaeth:

Mae rhai grwpiau o'r boblogaeth yn fwy agored i ddioddef anghydraddoldebau iechyd. Mewn HIA, mae sensitifrwydd i effeithiau-boed yn gadarnhaol neu negyddol-yn dibynnu ar nodweddion y boblogaeth leol, y cyd-destun a natur y cynnig. Gallai fod yn briodol canolbwyntio ar grwpiau sydd ag amryw o anfanteision.

Grwpiau Rhyw/Rhywedd
- Benyw
- Gwryw
- Trawsryweddol
- Anneuaidd
- Arall *(nodwch)*


Grwpiau oedran *(Gellir nodi ystod oedran ar gyfer ystyriaeth arbennig)*
- Blynyddoedd cynnar (gan gynnwys beichiogrwydd a babanod hyd at 2 oed)
- Plant a phobl ifanc
- Oedolion o oedran gweithio
- Pobl hŷn

Grwpiau cyflogaeth / incwm
- Economaidd weithgar
- Economaidd anweithgar
- Pobl ar incwm isel
- Pobl ar gontractau dros dro neu dim oriau
- Pobl nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd salwch
- Di-waith/heb waith
- Gwirfoddolwyr
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET)

Grwpiau y mae risg uwch iddynt wynebu gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall
- Gofalwyr
- Lleiafrifoedd ethnig *(nodwch)*
- Cyn-droseddwyr
- Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- Digartref neu heb gartref sefydlog
- Iaith/diwylliant *(nodwch)*
- Teuluoedd rhiant unigol
- Plant sy'n derbyn gofal neu'r rheini sy'n gadael gofal
- Troseddwyr
- Pobl â chyflyrau iechyd hirdymor
- Pobl â chyflyrau iechyd meddwl
- Pobl ag anableddau/anawsterau corfforol, synhwyraidd neu ddysgu
- Grwpiau ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- Grwpiau crefyddol *(nodwch)*
- Gweithwyr rhyw
- Grwpiau cyfeiriadedd rhywiol
- Cyn-filwyr neu staff milwrol


Grwpiau a/neu leoliadau daearyddol
- Pobl mewn lleoliadau allweddol: mannau gweithio/ysgolion/ysbytai/cartrefi gofal/carchardai
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd sy'n arddangos dangosyddion economaidd a/neu iechyd gwael
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol neu wledig
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd ynysig neu wedi'u gorboblogi
- Pobl nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau

1


Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA): Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant

Penderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant:

1. Ymddygiad sy'n effeithio ar iechyd
- Deiet / maeth / bwydo babanod
- Gweithgaredd corfforol
- Ymddygiad caethiwus/cymryd risgiau (gamblo, camddefnyddio sylweddau, fepio, smygu, alcohol)
- Defnyddio meddyginiaeth heb bresgripsiwn, a chamddefnyddio meddyginiaeth ar bresgripsiwn.
- Gweithgaredd rhywiol
- Patrymau cysgu
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol


Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA): Taflen Cofnodi Sgrinio

Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru
Wales Health Impact Assessment Support Unit

Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA): Taflen Cofnodi Sgrinio

*Gellir defnyddio'r daflen cofnodi sgrinio ar Gam Sgrinio'r broses HIA i helpu i arwain a chofnodi'r trafodaethau. Dylid ei defnyddio ochr yn ochr â'r adnodd Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant.*


Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA): Templed cwmpasu

Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru
Wales Health Impact Assessment Support Unit

Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA): Templed cwmpasu

*Dylid defnyddio'r adnodd hwn yn ystod cam Cwmpasu'r broses HIA. Darperir nodiadau canllaw ar ddiwedd yr adnodd hwn i gefnogi'r gwaith o gwblhau'r cam hwn. Yn ddelfrydol, dylai mwy nag un unigolyn gwblhau'r cam cwmpasu.*

*Mae'r cam cwmpasu'n pennu elfennau rheoli prosiect, llywodraethu, proses, amcanion, ffocws a maint yr HIA. Mae hefyd yn cyfrannu at gyflawni'r gwerthoedd a'r egwyddorion allweddol sy'n ategu gweithrediad yr HIA gan gynnwys tryloywder, cyfranogiad a gwydnwch.*



# Mae Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru (UGAEIC) yma i helpu!

- Cyrsiau E-Ddysgu
- Sesiynau Hyfforddi 'AEI a'r Broses' Ar-lein
- Rhwydwaith Ymarfer Asesu'r Effaith ar Iechyd (AEI)
- UGAEIC.IechydCyhoeddusCymru@wales.nhs.uk

# Manylion Cyswllt:

UGAEIC.IechydCyhoeddusCymru@wales.nhs.uk

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru
Wales Health Impact Assessment Support Unit

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales